# Canllaw Cynllunio

# Planning Guide



# 2022-23

## Pwrpas y canllaw hwn

Rhai cwestiynau sydd gan ddarpar athrawon pan maen nhw'n dechrau cynllunio gwersi ydy:

Pam mae'n rhaid cynllunio?

Pam mae'n cymryd gymaint o amser?

Sut ydw i'n gwybod beth i gynnwys?

Pa strategaethau sydd orau i ddefnyddio?

Pam mae'n rhaid defnyddio templed y brifysgol?

Pam mae'n rhaid gwerthuso bob gwers?




Prif bwrpas y canllaw hwn yw i ateb y cwestiynau hyn a gosod sail a man cychwynnol i'ch arferion cynllunio. Yn ystod eich rhaglen bydd gennych fynediad i bob math o gynnwys sy'n rhan o'ch modylau a'ch Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP), yn ogystal â'r gormodedd o wybodaeth sydd ar gael i chi mewn llyfrau ac ar y we. Bydd y canllaw hwn, felly, yn gyfeirbwynt gwerthfawr wrth i chi ddysgu sut i gynllunio fel athro cychwynnol.

Bydd y canllaw hwn yn cynnig arweiniad a deunyddiau cefnogol i chi wrth i chi astudio'r modiwl *Arwain y Dysgu: beth, sut a phwy ydw i'n addysgu?* ac wrth i chi ddilyn *y Llwybr SAC* gyda'ch Tiwtor Proffesiynol. Trwy'r canllaw ac astudiaeth o gynnwys y modiwl a'r Llwybr SAC byddwch yn dysgu am bwysigrwydd, egwyddorion a disgwyliadau cynllunio'ch rhaglen, ac yn dod i adnabod nodweddion cynllunio effeithiol fel paratoad ar gyfer eich PAP a'ch gyrfa fel athro.

## The purpose of this guide

Some questions student-teachers have when they begin planning their lessons are:

Why must I plan?

Why does it take so long?

How do I know what to include?

What strategies are best to use?

Why must I use the university's template?

Why must I evaluate every lesson?



The main purpose of this guide is to answer these questions and set the foundation and starting point for your planning practices. During your programme you will have access to all types of content that is part of your modules and your Professional Teaching Experience (PTE), as well as the vast amount of information available to you in books and on the web. This guide will, therefore, be a valuable reference point as you learn how to plan as a beginning teacher.

This guide will provide you with guidance and support materials as you study the *Leading the Learning: what, how and who am I teaching?* module and as you follow the *QTS Pathway* with your Professional Tutor. Through the guide and study of the module content and QTS Pathway you will learn about the importance, principles and expectations of planning within your program, and get to know the features of effective planning as you prepare for your PTE and your teaching career.

## Cynnwys // Contents


Pwrpas y canllaw hwn ....................1

The purpose of this guide ....................3

Pwysigrwydd Cynllunio ....................5

The importance of planning ....................7

Egwyddorion Cynllunio ....................9

Principles of Planning ....................11

Disgwyliadau Cynllunio ....................13

- Disgwyliadau'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ....................14
- Disgwyliadau llyfryn Canllaw PAP y rhaglen ....................14
- Disgwyliadau sy'n dystiolaeth-seiliedig ....................14

Planning expectations ....................16

- Expectations found in the Professional Standards for Teaching and Leadership ....................17
- Expectations found in the programme's PTE Guidance Booklet ....................17
- Expectations that are based on evidence ....................17

Cynllunio effeithiol ....................19

- Amcanion dysgu ....................20
- Meini prawf llwyddiant ....................20

Asesu ....................................................................................................................21
Gwahaniaethu ..........................................................................................................21
Effective planning ......................................................................................................22
Learning objectives......................................................................................................23
Success criteria ..........................................................................................................23
Assessment...............................................................................................................23
Differentiation ..........................................................................................................24
Gwerthuso’r Cynllunio...................................................................................................24
Gwerthuso neu adfyfyrio?..............................................................................................25
Evaluating your Planning ..............................................................................................26
Evaluation or reflection?.................................................................................................26
Cyfeirnodau / References ..............................................................................................27
Atodiadau ...............................................................................................................28

## Pwysigrwydd Cynllunio

Mae Geiriadur Collins yn diffinio cynllunio fel “y broses o benderfynu’n fanwl sut i wneud rhywbeth cyn i chi ddechrau ei wneud mewn gwirionedd.” (https://www.collinsdictionary.com/). Er bod y diffiniad hwn yn ddefnyddiol, yng nghyd-destun cynllunio gwersi mae'n ddi-fudd gan y gellir ei ddehongli ar gam fod cynllunio yn weithgaredd manwl, ond syml. O'ch astudiaethau o'ch modiwlau hyd yma, byddwch yn gwybod bod addysgu yn unrhyw beth ond syml, ac mae digonedd o lenyddiaeth sy'n cadarnhau bod addysgu'n gymhleth ac yn eich herio’n wybyddol (Westerman, 1991). Nid yw cynllunio gwersi, cymhwysedd craidd o fod yn athro, yn eithriad i'r cymhlethdodau a'r heriau hyn, a'r cam cyntaf tuag at ddeall pwysigrwydd cynllunio yw deall ei fod yn fwy na sgil i ddatblygu i chi gyflawni Statws Athro Cymwysedig (SAC) (Mutton et al., 2011).

Ceisiodd astudiaeth a gynhaliwyd gan Mutton, Hagger & Burn (2011) archwilio rhai o'r cymhlethdodau a'r heriau sy'n ymwneud â chynllunio o safbwyntiau athrawon cychwynnol. Mae eu hastudiaeth yn archwilio rhai o'r cwestiynau a godwyd ar ddechrau'r canllaw hwn, ac mae'n darparu darn meddwl ichi ddechrau datblygu eich dealltwriaeth o bwysigrwydd cynllunio. Un o'r casgliadau mae'n cyrraedd yw:

> “The expectation that student teachers will arrive in school having been taught how to plan at the university is clearly a fallacious one since the evidence of this study is that beginning teachers learn most about how to plan once they gain much greater knowledge of what it can and cannot achieve.” (Mutton et al., 2011, p.412).

Beth mae hyn yn ei olygu, yn union, a pha atebion y mae'n eu darparu i'r cwestiynau a godir ar ddechrau'r canllaw hwn? Pa gwestiynau pellach sy'n codi o'r erthygl?

Cwblhewch y dasg ganlynol i ddatblygu eich meddyliau a'ch dealltwriaeth:

# Tasg 1

Ar gyfer y dasg hon,  bydd angen i chi ddarllen yr erthygl ganlynol:

Mutton, Trevor & Hagger, Hazel & Burn, Katharine. (2011). Learning to plan, planning to learn: The developing expertise of beginning teachers. Teachers and Teaching: theory and practice. 17. 399-416. 10.1080/13540602.2011.580516.

Mae fersiwn PDF ar gael yma: https://warwick.ac.uk/fac/soc/cte/pintra/partnershipevents/conference2020/learning_to_plan_planning_to_learn._the_developing_expertise_of_beginning_teachers.pdf

Mae copi hefyd ar gael o dan fodiwl *Arwain y Dysgu* a *Llwybr SAC* ar Moodle.

Ysgrifennwch nodiadau fel ymateb i'r cwestiynau canlynol:

1. Pa atebion, os o gwbl, ydy'r erthygl yn cynnig i'r cwestiynau hyn:

    - Pam mae'n rhaid cynllunio?
    - Pam mae'n cymryd gymaint o amser?
    - Sut ydw i'n gwybod beth i gynnwys?
    - Pa strategaethau sydd orau i ddefnyddio?
    - Pam mae'n rhaid defnyddio templed y brifysgol?
    - Pam mae'n rhaid gwerthuso bob gwers?

2. Yng nghyd-destun yr erthygl, beth yw ystyr y canlynol: "teachers learn most about how to plan once they gain much greater knowledge of what it can and cannot achieve." (*ibid.*)?

3. O ddarllen yr erthygl, pam ydych chi'n credu bod cymaint o bwyslais yn cael ei roi ar allu darpar athrawon i gynllunio?

4. Pam mae cynllunio'n bwysig?

## The importance of planning

Collins Dictionary defines planning as "the process of deciding in detail how to do something before you actually start to do it." (https://www.collinsdictionary.com/). While this definition is useful, in the context of lesson planning it is unhelpful as it can mistakenly be interpreted that planning is a detailed, yet simple and straightforward activity. From your studies of your modules to date, you will know that teaching is anything but simple and straightforward, and there is an abundance of literature that confirms that teaching is complex and cognitively demanding (Westerman, 1991 in Mutton et al., 2011). Lesson planning, a core competence of being a teacher, is no exception to these complexities and demands, and the first step towards understanding the importance of planning is to understand that it is more than just a skill to develop for you to achieve Qualified Teacher Status (QTS) (Mutton et al., 2011).

A study undertaken by Mutton, Hagger & Burn (2011) sought to explore some of the complexities and demands surrounding planning from the perspectives of beginning teachers. Their write-up of their study provides and exploration of some of the questions raised at the start of this guide, and it provides a think-piece for you to begin developing your understanding of the importance of planning. One of the conclusions it arrives at is:

> "The expectation that student teachers will arrive in school having been taught how to plan at the university is clearly a fallacious one since the evidence of this study is that beginning teachers learn most about how to plan once they gain much greater knowledge of what it can and cannot achieve." (Mutton et al., 2011, p.412).

What does this mean, exactly, and what answers does it provide to the questions raised at the start of this guide? What further questions arise from the article?

Please complete the following task to develop your thoughts and understanding:

# Task 1



For this task, you will need to read the following journal article:

Mutton, Trevor & Hagger, Hazel & Burn, Katharine. (2011). Learning to plan, planning to learn: The developing expertise of beginning teachers. Teachers and Teaching: theory and practice. 17. 399-416. 10.1080/13540602.2011.580516.

A PDF version can be found here: https://warwick.ac.uk/fac/soc/cte/pintra/partnershipevents/conference2020/learning_to_plan_planning_to_learn._the_developing_expertise_of_beginning_teachers.pdf

A copy is also available in the *Leading the Learning* module *QTS Pathway* tiles on Moodle.



Make notes in response to these questions:

1. What answers, if any, does the article offer in relation to the questions raised at the start of this guide?

   - Why must I plan?
   - Why does it take so long?
   - How do I know what to include?
   - What strategies are best to use?
   - Why must I use the university's template?
   - Why must I evaluate every lesson?

2. In the context of the article, what does the following quote mean: “teachers learn most about how to plan once they gain much greater knowledge of what it can and cannot achieve.” (*ibid.*)?

3. Having read the article, why do you think such an emphasis is placed on student-teachers’ ability to plan?

4. Why is planning important?

## Egwyddorion Cynllunio

Pan gyfeiriwn at ‘egwyddorion cynllunio’, rydym yn cyfeirio at y syniadau, y credoau a’r gwerthoedd y bydd eich cynlluniau gwersi yn seiliedig arnynt. Fodd bynnag, gall hyn wneud cynllunio yn broses oddrychol iawn. Er mwyn cadw golwg fwy gwrthrychol ar gynllunio, mae Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa (PDPA) wedi penderfynu cytuno ar set benodol o egwyddorion cynllunio a ddylai fod yn ganolog i'ch proses feddwl am gynllunio gwersi.

Erbyn hyn byddwch yn gyfarwydd â 12 Egwyddor Addysgegol Donaldson (Donaldson, 2015, tt.64-71). Dyma nodyn atgoffa:

1. Mae addysgu a dysgu da yn canolbwyntio’n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm.

2. Mae addysgu a dysgu da yn rhoi her i’r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu’n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy’n uchel ond o fewn eu cyrraedd.
3. Mae addysgu a dysgu da yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy’n cynnwys addysgu uniongyrchol.
4. Mae addysgu a dysgu da yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy’n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a’r gallu i feddwl mewn modd beirniadol.
5. Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy’n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.
6. Mae addysgu a dysgu da yn creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu.
7. Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.
8. Mae addysgu a dysgu da yn ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad.
9. Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau’n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i’w harfer.
10. Mae addysgu a dysgu da yn cymell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain.
11. Mae addysgu a dysgu da yn hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol.
12. Mae addysgu a dysgu da yn hybu cydweithio.

Dyma'r egwyddorion y byddwch chi'n eu defnyddio i lywio'ch cynllunio. Byddant yn arwain y penderfyniadau a wnewch i gynllunio ar gyfer eich dysgwyr a'u hanghenion unigol a byddant yn eich helpu i strwythuro gwersi sy'n ffafriol i ddysgu. Byddant hefyd yn darparu pwyntiau trafod i chi a'ch mentor nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu a byddant yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer cynllunio ac addysgu cydweithredol. Nid ydynt yn rhestr ticio; maen nhw'n ffordd o feddwl am eich cynllunio a gweld ymlaen llaw yr hyn rydych chi'n bwriadu ei wneud yn yr ystafell ddosbarth. Defnyddiwch yr egwyddorion i fynegi eich proses feddwl am gynllunio, ac fel un ffynhonnell i gefnogi'r penderfyniadau a wnewch am eich dewisiadau cynllunio.

# Tasg 2



Ysgrifennwch nodiadau fel ymateb i’r cwestiwn canlynol:

1. Mae astudiaeth Mutton et al (2011) yn nodi diffyg hyblygrwydd a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer creadigrwydd mewn cynllunio athrawon cychwynnol. Sut gallai defnyddio 12 Egwyddor Addysgegol Donaldson (2015) fel set gytûn o egwyddorion cynllunio helpu i oresgyn y diffygion hyn?



Ar gyfer y dasg hon, bydd angen i chi ddarllen yr erthygl ganlynol:

[https://www.aft.org/sites/default/files/periodicals/Rosenshine.pdf](https://www.aft.org/sites/default/files/periodicals/Rosenshine.pdf)

2. Beth yw *Rosenshine's Principles of Instruction*? Sut maen nhw'n cymharu â 12 Egwyddor Addysgegol Donaldson? Sut y gallent helpu i lywio eich dull o gynllunio?




## Principles of Planning

When we refer to 'principles of planning', we are referring to the ideas, beliefs and values on which your lesson planning will be based. However, this can make planning a very subjective process. In order to keep a more objective view of planning, Yr Athrofa Professional Learning Partnership (APLP) has decided to agree on a specific set of planning principles that should be central to your lesson planning thought process.

By now you will be familiar with Donaldson's 12 Pedagogical Principles (Donaldson, 2015, pp.64-71).

Here's a reminder:

Pedagaogical Principles

1. Good teaching and learning maintain a consistent focus on the overall purposes of the curriculum.
2. Good teaching and learning challenge all learners by encouraging them to recognise the importance of sustained effort in meeting expectations that are high but achievable for them.
3. Good teaching and learning mean employing a blend of approaches including direct teaching.
4. Good teaching and learning mean employing a blend of approaches including those that promote problem solving, creative and critical thinking.
5. Good teaching and learning set tasks and selects resources that build on previous knowledge and experience and engage interest.
6. Good teaching and learning create authentic contexts for learning.
7. Good teaching and learning mean employing assessment for learning principles.
8. Good teaching and learning range within and across Areas of Learning and Experience.
9. Good teaching and learning regularly reinforce Cross-Curriculum Responsibilities, including literacy, numeracy and digital competence, and provide opportunities to practice them.
10. Good teaching and learning encourage children and young people to take increasing responsibility for their own learning.
11. Good teaching and learning support social and emotional development and positive relationships.
12. Good teaching and learning encourage collaboration.

These are the principles you will use to inform your planning. They will guide the decisions you make to plan for your learners and their individual needs and will help you to structure lessons that are conducive to learning. They will also provide discussion points for you and your mentor in to identify strengths and areas for development and will support opportunities for collaborative planning and teaching. They are not a tick-list; they are a way of thinking about your planning and visualising what you intend to do in the classroom. Use the principles to articulate your planning thought-process, and as one source to support the decisions you make about your planning choices.

# Task 2



Make notes in response to this question:

1. Mutton et al's study (2011) identifies a lack of flexibility and limited opportunities for visualisation and creativity in beginning teachers' planning. How might using Donaldson's 12 Pedagogical Principles (2015) as an agreed set of planning principles help to overcome these deficiencies?

For this task, you will need to read the following article:

[https://www.aft.org/sites/default/files/periodicals/Rosenshine.pdf](https://www.aft.org/sites/default/files/periodicals/Rosenshine.pdf)

2.What are Rosenshine's Principles of Instruction? How do they compare to Donaldson's 12 Pedagogical Principles? How might they help to inform your approach to planning?




## Disgwyliadau Cynllunio

Mae'r disgwyliadau am eich cynllunio yn deillio o sawl ffynhonnell:

- Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (SAC) (Llywodraeth Cymru, 2017)
- Llyfryn Canllaw PAP y rhaglen
- Arferion cynllunio sy'n dystiolaeth-seiliedig

Edrychwn ar y ffynonellau hyn yn eu tro yn nhudalennau nesaf y canllaw hwn.

Mae'r disgwyliadau'n bodoli er mwyn cefnogi'r canlynol:

- y ffordd rydych yn dysgu am gynllunio fel darpar athro
- cysondeb yn y ffordd mae tiwtoriaid a mentoriaid yn gweithio gyda chi ar eich cynllunio
- prosesau sicrhau ansawdd y rhaglen sy'n ffocysu ar ansawdd y ddarpariaeth cynllunio rydych yn ei derbyn ac effaith honno yn yr ystafell ddosbarth.

Er y disgwyliadau cynllunio penodol a phendant sy’n bodoli, mae’n bwysig nodi bod hyblygrwydd yn perthyn i’r disgwyliadau hyn yn yr ystyr eu bod cydnabod bod cyd-destunau cynllunio pawb yn wahanol, a bod pawb yn dysgu am gynllunio ar gyflymdra gwahanol. Adlewyrcha hyn yn neunyddiau cynllunio’r rhaglen.

## Disgwyliadau’r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth

# Tasg 3



Ar gyfer y dasg hon, bydd angen i chi ddarllen y ddogfen Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth sydd ar gael o dan y deilsen Llwybr Proffesiynol SAC ar Moodle.

1. Beth ddywed colofn ‘Ar y trywydd iawn’ yn nogfen Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (SAC) am gynllunio? Pa safonau sy’n cyfeirio at gynllunio yn benodol? Beth sydd angen i chi medru ei wneud i fod ‘ar y trywydd iawn’ ar gyfer cynllunio?

## Disgwyliadau llyfryn Canllaw PAP y rhaglen

Bydd eich Tiwtor Proffesiynol yn eich tywys trwy’r disgwyliadau sy’n gysylltiedig gyda’r Llwybr SAC a’ch PAP, ond dyma grynodeb:

- Mae’n ofynnol eich bod yn defnyddio templed cynllunio’r brifysgol. Mae’n cynnwys digon o hyblygrwydd er mwyn ymateb i ofynion cynllunio penodol eich ysgol, neu amgylcheddau dysgu amrwyiol, e.e. yr awyr agored, arlein.
- Wrth i chi ddechrau are ich gwaith cynllunio, mae’n ofynnol eich bod chi’n defnyddio templed Cam 1 (gweler Atodiad 1) y rhaglen sy’n cynnwys strwythur clir i chi ei dilyn. Wrth i chi ddatblygu’ch medrau cynllunio ac arddangos eich bod ‘ar y trywydd iawn’ gyda’ch cynllunio am gyfnod estynedig (h.y. un bloc PAP), fe all eich mentor gytuno i chi symud ymlaen at dempled Cam 2 (gweler Atodiad 2) y rhaglen. Os ydych yn parhau i fod ‘ar y trywydd iawn’ tua ddiwedd y rhaglen, fe all eich mentor gytuno i chi symud at ddefnyddio templed cynllunio’r ysgol.
- Byddwch yn paratoi cynlluniau ar gyfer wythnos gyntaf yr addysgu yn ystod y cyfnod paratoi, gan ofyn i’ch mentoriaid dosbarth/pwnc wirio eu bod yn addas. Byddwch yn parhau i gyflwyno’ch cynlluniau i’ch mentoriaid dosbarth/pwnc ymlaen llaw (2 ddiwrnod gwaith yn ddelfrydol) er mwyn gwirio’r cynnwys a’r iaith.

## Disgwyliadau sy’n dystiolaeth-seiliedig

Erbyn hyn, byddwch wedi dechrau ymgyfarwyddo gydag Ymagweddau Ymchwil y rhaglen. Dyma nodyn atgoffa:

| *Nodwedd* | Gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau |
|---|---|
| *Bod yn sgeptigol* | Deall tystiolaeth empirig mewn maes dadleuol:<br>• Bod yn ymwybodol o'r gyrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'. |
| *Bod yn foesegol* | Deall sylfaen foesegol ymholi mewn gweithle cymhleth:<br>• Gwybod egwyddorion moesegol ymchwil;<br>• Deall ymagweddu (*positionality*) mewn ymchwil;<br>• Deall eich credoau a'ch tybiaethau eich hun am y byd. |
| *Bod yn ymchwilydd medrus* | Deall egwyddorion ymchwil y gwyddorau cymdeithasol, a gwybod y gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddir a pham:<br>• Deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau;<br>• Deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau;<br>• Deall dyluniadau pragmatig.<br>Deall sut i adeiladu dadl ar sail tystiolaeth a gwarant mewn ymchwil addysgol:<br>• Defnyddio sgiliau darllen beirniadol;<br>• Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'dystiolaeth'.<br>Gwerthfawrogi'n feirniadol faint o gefnogaeth a all fod ar gael neu beidio ar gyfer theorïau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd megis datblygiad plant a natur dysgu:<br>• Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'arloesi' (polisi ac ymarfer) neu'r 'peth mawr nesaf'.<br>Deall sut i ddefnyddio tystiolaeth empirig yn eich ystafelloedd dosbarth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd:<br>• Bod yn glir am yr hyn a fwriedir a pham;<br>• Diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd. |
| *Bod yn rhan o broffesiwn ymholgar* | Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr ymholgar:<br>• Gwybod a ddylid, pryd a sut i rannu deilliannau ymholiad dosbarth;<br>• Cyfrannu'n rhagweithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd;<br>• Mynd ati i ymwneud ag ymholi a chanfyddiadau pobl eraill. |

Pan ddaw at eich cynllunio mae'n ddisgwyledig eich bod chi'n seilio'ch penderfyniadau dysgu ac addysgu ar yr hyn sy'n cael ei ystyried yn arfer orau. Ar hyd y blynyddoedd, rydym wedi gweld pob math o strategaethau dysgu ac addysgu yn dod ac yn mynd, ond does gan rai ohonynt, gan gynnwys *VAK*, '*learning styles*' a '*Brain Gym*', ddim sail tystiolaeth iddynt o gwbl. Buddsoddwyd arian ac amser mawr gan ysgolion yn y strategaethau hyn heb unrhyw dystiolaeth o gwbl eu bod yn gweithio. Erbyn hyn mae byd addysg wedi'u labeli'n chwedlau neu'n mythau, a nifer o ysgolion wedi symud i ffwrdd ohonynt. Gofalwch eich bod chi'n gwybod pam rydych chi'n penderfynu gwneud pethau mewn ffordd benodol a bod eich penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Gwnewch ddefnydd o'r Ymagweddau Ymchwil er mwyn llywio'ch penderfyniadau.

# Tasg 4



Ar gyfer y dasg hon, bydd angen i chi ddarllen *Dimension 1: Understanding the Content* o'r *Great Teaching Toolkit* (Coe et al., 2020) sydd ar gael yma:

https://www.cambridgeinternational.org/support-and-training-for-schools/teaching-cambridge-at-your-school/great-teaching-toolkit/

Ysgrifennwch nodiadau fel ymateb i'r cwestiwn canlynol:

1.Yn ôl *Dimension 1: Understanding the Content* o'r *Great Teaching Toolkit* (Coe et al., 2020), beth sy'n ddisgwyliedig ohonoch pan ddaw at gynllunio gwersi?




## Planning expectations

Expectations of your planning come from several sources:

- Professional Standards for Teaching and Leadership (QTS)
- The programme's PTE Guidance booklet
- Evidence-based planning practices

We will look at these sources in turn in the next pages of this guide.

These expectations exist to support the following:

- the way you learn about planning as a student-teacher
- consistency in the way tutors and mentors work with you on your planning
- programme quality assurance processes that focus on the quality of the planning provision you receive and its impact in the classroom.

Despite the specific and explicit planning expectations that exist, it is important to note that these expectations have flexibility in that they recognise that everyone's planning contexts are different,

and that everyone learns about planning at a different pace. This is reflected in the programme's planning materials.

## Expectations found in the Professional Standards for Teaching and Leadership

# Task 3

For this task, you will need to read the Professional Standards for Teaching and Leadership document available under the QTS Professional Pathway tile on Moodle.

1. What does the 'On Track' column of the Professional Standards for Teaching and Leadership (QTS) document say about planning? Which standards refer specifically to planning? What do you need to be able to do to be 'on track' for planning?

## Expectations found in the programme's PTE Guidance Booklet

Your Professional Tutor will guide you through the expectations associated with the QTS Pathway and your PTE, but here's a summary:

- You are required to use the university planning template. It includes sufficient flexibility to respond to the specific planning requirements of your school, and diverse learning environments, e.g. the outdoors, online.
- As you begin your planning, you are required to use the programme's Phase 1 template (see Appendix 1) which includes a clear structure for you to follow. As you develop your planning skills and demonstrate that you are 'on track' with your planning for an extended period of time (ie one PTE block), your mentor may agree for you proceed to the programme's Phase 2 template (see Appendix 2). If you are still 'on track' towards the end of the programme, your mentor may agree that you move to using the school's planning template.
- You will prepare plans for the first week of teaching during the preparation period, asking your class / subject mentors to check that they are suitable. You will continue to submit your plans to your class / subject mentors in advance (ideally 2 working days) to check the content and language.

## Expectations that are based on evidence

By now, you will have begun to become familiar with the programme's Research Dispositions. Here's a reminder:

| Disposition | Knowledge, skills, understandings and behaviours |
| --- | --- |
| ***Being sceptical*** | To understand empirical evidence in a contested terrain:<br>• Being aware of the political, economic and social drivers for, and implications of, 'evidence'. |
| ***Being ethical*** | To understand the ethical base of inquiry in a complicated workplace:<br>• Knowing ethical principles of research;<br>• Understanding positionality within research;<br>• Recognising own beliefs and assumptions about the world. |
| ***Being a skilled researcher*** | To understand the principles of social science research, and to know the different kinds of methods that are used and why:<br>• Understanding qualitative methods and the nature/status of findings;<br>• Understanding quantitative methods and the nature/status of findings;<br>• Understanding pragmatic designs.<br>To understand how to construct an argument based on evidence and warrant in educational research:<br>• Employing critical reading skills;<br>• Taking a sceptical approach to 'evidence'.<br>To critically appreciate the degree of support that may or may not exist for popular and influential theories in such areas as child development and the nature of learning:<br>• Taking a sceptical approach to 'innovation' (policy and practice) or the 'next big thing'.<br>To understand how to apply empirical evidence in their classrooms and evaluate its effectiveness:<br>• Being clear about what is intended and why;<br>• Defining the parameters for evaluation of effectiveness. |
